

Cyngor i athrawon

Paratoi am Ymweliadau Rhithwir

national
museum
wales
amgueddfa
cymru

amgueddfa.cymru/addysg

**Gallwn gysylltu â'ch
dosbarth os yw eich
dosbarth yn gweithio o
gartref neu o'r ysgol.**

Dyma ambell awgrym i'ch helpu i
wneud y mwyaf o'r sesiwn.

Diogelwch a Gwarchod

Rydym yn dilyn canllawiau
Llywodraeth Cymru ar ffrydio
byw a fideo-gynadledda

Mae'n rhaid i athrawon fod yn
bresennol ac yn gyfrifol am y
plant drwy gydol y sesiwn.
Rydym yn gofyn i athrawon
drefnu'r cyfarfod am mai dyma'r
arfer gorau ar gyfer diogelu.



Sut mae'n gweithio:

- Trefnwch amser ar gyfer ymweliad rhithwir gyda'r Amgueddfa. Y nifer uchaf o ddisgyblion sy'n cael mynychu pob sesiwn yw 35. Gellir dod o hyd i fanylion archebu yma:
<https://amgueddfa.cymru/addysg/gweithgaredd/444/Ymweliadau-Rhithwir/>
- Athro i greu cyfarfod Microsoft Teams a gwahodd yr Amgueddfa i'r cyfarfod - Mae Teams yn hawdd i'w ddefnyddio ond rydym yn hapus i gynnig cymorth gyda hyn.
- Staff yr amgueddfa i arwain y cyflwyniad.
- Yr athro i gefnogi'r sesiwn, gan ddelio â chwestiynau a sicrhau bod ymddygiad addas yn cael ei gynnal - gan ddilyn canllawiau Hwb isod. Rydym yn argymhell defnyddio'r nodwedd 'codi llaw' yn hytrach na galluogi'r nodwedd sgwrsio i'r disgyblion.

Paratoi eich disgyblion:

Dylid defnyddio'r adnoddau sydd wedi'u darparu gyda'ch archeb er mwyn paratoi eich disgyblion at y sesiwn. Efallai y bydd angen i'ch dosbarth wyllo cynnwys ar-lein a chymryd rhan mewn gweithgareddau digidol cyn y sesiwn - a fydd wir yn gwella'r profiad.

Gwnewch nhw'n ymwybodol y bydd cyfle ganddynt i sgwrsio gyda staff yr Amgueddfa yn ystod y sesiwn byw. Byddan nhw'n cymryd rhan mewn gweithgareddau, yn astudio gwrthrychau'r Amgueddfa ac yn holi cwestiynau.

Rhannwch unrhyw luniau gyda ni ar gyfrif Twitter @Amgueddfa_Learn Peidiwch ffilmio staff yr Amgueddfa.



Paratoi eich offer.

I sicrhau'r ymwneud gorau rhwng eich disgyblion a staff yr Amgueddfa rydym yn eich gwahodd i archebu sesiwn brawf gydag aelod o'n staff. Bydd hyn yn sicrhau bod ein staff yn gallu gweld a chlywed eich holl ddisgyblion a'u bod yn gallu ein gweld a'n clywed ni!



Os oes llawer o sŵn cefndirol, efallai y gofynnwn i chi i ddiffodd eich meicroffon ar adegau penodol yn ystod y sesiwn. Ar y dudalen nesaf byddwch chi'n dod o hyd i restr wirio y gallwch ei defnyddio a'i rhannu gyda'ch disgyblion er mwyn paratoi eich teclynnau ar gyfer y cyfarfod Teams.


Isod byddwch chi hefyd yn dod o hyd i ddolenni cymorth technegol.



Cymorth Technegol:

- Teams for education Quick Guide <https://support.microsoft.com/en-us/office/downloadable-guides-6bd3eb82-0a0f-43cc-a4d2-c9f4e7ebdf39>
- Canolfan gymorth Hwb Teams <https://hwb.gov.wales/canolfan-cymorth/gwasanaethau-hwb/ffrydio-byw/microsoft-teams/#teams>
- Desg gwasanaeth Hwb: 03000 252525 or Hwb@llyw.cym
- Awdurdod Lleol. Cysylltwch â thechnegydd eich awdurdod lleol am gymorth.

Dyma ganllaw cyflym i'r Meeting Controls yn Teams



1 Botwm Show Participants:
Cliciwch y botwm Show Participants i agor y panel People yn ochr dde ffenest y cyfarfod a gweld rhestr o bawb sydd yn y cyfarfod.

2 Botwm Show Conversation :
Cliciwch y botwm Show Conversation i agor y panel Meeting chat yn ochr dde ffenest y cyfarfod a sgwrsio gyda'r sawl sy'n bresennol yn y cyfarfod.

3 Botwm Raise Your Hand:
Click the raise your hand button to alert the presenters that you have something to contribute without interrupting the ongoing conversation. Other participants will be able to see an icon next to your name that indicates you have your hand raised.

4 Botwm More Actions:
Cliciwch y botwm More Actions i agor dewislen o weithredoedd a nodweddion Teams ychwanegol. Ymysg yr opsiynau a restrir yn y ddewislen hon mae opsiynau i gael mynediad at osodiadau dyfais, mynd i osodiad sgrin lawn, a dechrau neu stopio recordiad cyfarfod.

5 Botwm Camera:
Cliciwch fotwm y Camera er mwyn cynnau neu ddiffodd eich camera. Os yw eich camera wedi diffodd ar yr adeg honno, bydd slaes drwyddo.

6 Botwm Meicroffon:
Cliciwch fotwm y Meicroffon i ddiffodd neu dad-ddiffodd eich meicroffon. Os yw eich meicroffon wedi diffodd, bydd slaes drwy eicon y meicroffon.

7 Botwm Share Screen:
Defnyddir hwn gan y cyflwynydd er mwyn rhannu'r hyn sydd ganddynt ar eu sgrin, megis cyflwyniad.

Rhestr wirio:



Mae pob person sy'n cymryd rhan angen gwybod sut i:

- Ymuno gyda chyfarfod.
- Cynnau neu ddiffodd y camera.
- Cynnau neu ddiffodd y meicroffon.
- Sut i godi eich llaw i ofyn cwestiwn a sut i'w dynnu lawr wedi ichi siarad.
- Cysylltu eich cyfrif Teams gyda'r camera, meicroffonau, a seinyddion cywir yneich dosbarth/cartref.

Bydd angen i athrawon ac arweinwyr grŵp wybod:

- Sut i drefnu cyfarfod a gwahodd staff yr Amgueddfa a disgyblion. Sut i olygu 'meeting options'. Bydd angen gwneud aelod staff yr Amgueddfa yn 'mynychwr' ac yna 'gyflwynydd'.
- Sut i osod 'spot light' ar y cyflwynydd - er mwyn sicrhau mai aelod staff yr Amgueddfa sy'n cyflwyno yw'r unig un sy'n ymddangos ar y sgrin mae'r plant ynei gwyllo.
- Sut i fonitro a dewis cwestiynau gan y disgyblion. Rydym yn argymhell defnyddio'r nodwedd 'codi llaw'.
- Sut i 'ddad-ddiffodd' ac yna 'diffodd' disgyblion unigol cyn ac ar ôl iddyn nhwofyn cwestiynau.
- Sut i 'ddiffodd' a 'dad-ddiffodd' pawb sy'n cymryd rhan.

Os ydych chi'n cynnal y cyfarfod o'r ysgol sicrhewch eich bod yn:

- **Gosod eich camera** a'ch dosbarth fel bod modd gweld holl ddisgyblion ydosbarth. Mae angen i staff yr Amgueddfa weld sut mae disgyblion yn ymatebneu os ydyn nhw'n codi eu llaw i ofyn cwestiwn.
- **Gosodwch eich meicroffon** - fel bod modd clywed y disgyblion yn gofyn cwestiynau. Os oes angen i ddisgyblion gamu ymlaen i ofyn cwestiynau - paratowch nhw ar gyfer hyn. Os nad yw staff yr Amgueddfa yn gallu clywed y disgyblion - rydym yn gofyn bod yr athrawon yn gofyn cwestiynau ar ran y disgyblion.